# Telerau ac Amodau

# Contract Myfyriwr Addysg Uwch



Rhifyn 3
Awst 2023

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad**

**2. Ein Contract â chi**

**3. Amodau'r Contract**

**4. Hawliau Canslo**

**5. Mynediad at y Gwasanaeth Cymorth Dysgu**

**6. Talu Ffioedd**

**7. Ymadael yn Gynnar/Gadael y Rhaglen**

**8. Terfynu Contract Gorfodol**

**9. Defnydd o'ch Data Personol**

**10. Amrywiad i Delerau ac Amodau**

**11. Newidiadau i'r rhaglen astudio**

**12. Eich Hawliau**

### 1. Cyflwyniad

Mae'r Contract Myfyriwr hwn yn amlinellu'r telerau ac amodau a fydd yn rheoleiddio eich perthynas gytundebol â Coleg Gwent. Sicrhewch eich bod yn darllen y ddogfen yn ofalus cyn derbyn eich cynnig. Gellir cael gafael ar yr holl ddogfennau, polisïau a gweithdrefnau eraill y cyfeirir atynt yma.

### 2. Ein Contract â chi

Mae'r telerau ac amodau a amlinellir yn y contract hwn ar y cyd â chynnwys eich llythyr cynnig, yn ffurfio sail ein contract â chi. Bydd eich contract yn dod yn rhwymol ar yr adeg pan fyddwch yn derbyn eich cynnig ar gyfer y cwrs. Os ydych wedi ymgeisio drwy UCAS, bydd hyn digwydd pan fyddwch yn derbyn eich cynnig ar UCAS Track. Os ydych wedi ymgeisio yn uniongyrchol i'r Coleg, y pwynt derbyn fydd y dyddiad pan dderbynnir eich penderfyniad yn y swyddfa Derbyniadau, boed hynny drwy'r post, e-bost neu dros y ffôn.

### 3. Amodau'r Contract

Gwneir eich cynnig ar y rhagdybiaeth eich bod wedi darparu i'r Coleg yr holl wybodaeth berthnasol a

penodol ar ei ffurflen gais, neu ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio, yn cael ei gyfeirio at y Tîm Gwasanaethau Dysgwyr.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod, lle nad yw anabledd neu anhawster dysgu penodol (neu effeithiau'r anabledd neu'r anhawster dysgu yn bodoli eisoes) yn dod i'r amlwg tan ar ôl cofrestru, yn ymgysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Dysgwyr cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl hynny. Gall methu â gwneud hynny leihau'r cymorth sydd ar gael i chi, yn ogystal â pheryglu, o bosibl, eich cynnydd academaidd. I wneud cais am drefniadau arbennig ar gyfer arholiadau rhaid i chi gofrestru â'r Tîm Gwasanaethau Dysgwyr fel y gellir asesu, ac ymgeisio am gymhwystra ar gyfer trefniadau o'r fath.

**Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA)**

Gallwch ymgeisio am DSA os ydych yn astudio cwrs israddedig llawn amser neu ran-amser (er enghraifft gradd neu HND) ac mae gennych anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu Anhawster Dysgu Penodol sy'n effeithio ar eich gallu i astudio.

**Myfyrwyr Cyfradd y DU/yr UE**

Mae ffioedd cwrs blynyddol yn daladwy adeg ymrestru, sy'n digwydd ar ddechrau'r sesiwn academaidd, yn unol â'r Polisi Ffioedd. **Os oes gennych statws ffioedd 'Cartref', yn ogystal â thaliad llawn, mae gennych dri opsiwn talu ar gael i chi.**

(v)

## 9. Defnydd o'ch Data Personol

Byddwch yn cael Datganiad Diogelu Data pan fyddwch yn cofrestru ar eich cwrs dewisol. Bydd y datganiad hwn yn darparu gwybodaeth am y defnydd o'ch data personol a sut y caiff ei rannu. Noder ei bod hi'n ofynnol i'r Coleg rannu gwybodaeth gyda'r canlynol:

Asiantaethau cyllid ac ystadegol, megis yr OfS, HESA a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.
Cyrff dyfarnu, h.y. USW, UW, AU, Pearson ac UCAS
Heddlu Gwent (lle mae euogfarn droseddol wedi cael ei datgan)

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu gyda'r Brifysgol ddyfarnu sy'n gysylltiedig â'ch cwrs astudio.

Yn ystod blwyddyn olaf eich rhaglen gofynnir i chi gymryd rhan yn yr **Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr**. Arolwg a noddir gan y llywodraeth yw hwn, sy
ag agweddau amrywiol ar eu rhaglen astudio. Bydd y cwmni arolwg, Ipsos-Mori yn cysylltu â chi'n uniongyrchol, am eich barn dros y ffôn neu drwy e-bost.

Ymhen pymtheg mis ar ôl i chi gwblhau'ch rhaglen astudio bydd cwmni arolwg yn cysylltu â chi i ofyn beth ydych wedi bod yn ei wneud ers gadael Coleg. Gelwir hyn yn Holiadur Hynt Graddedigion. Mae gan y llywodraeth a chyrff eraill ddiddordeb yn yr effaith mae astudio ar lefel Addysg Uwch yn ei gael ar fywydau cyn-fyfyrwyr e.e. eu rhagolygon gwaith, dyrchafiad yn y gwaith, y cyflog a enillant gyda chymhwyster AU.

Bydd canlyniadau'r arolygon a nodir uchod yn cael eu hadrodd yn ddienw, a bydd eich ymatebion yn aros yn gyfrinachol. Mae'r Coleg yn gobeithio y byddwch yn cymryd rhan yn llawn yn y ddau arolwg yma gan fod eich barn yn bwysig i ni. Bydd yr adborth a ddarperir gennych yn helpu'r Coleg i wella ansawdd ei gyrsiau AU a gwasanaethau cymorth.

Mae Coleg Gwent yn cydweithredu'n llawn â gofynion Llywodraeth y DU ar gyfer monitro a rheoli dinasyddion nad ydynt yn hanu o'r DU, sy'n dod yma at ddibenion astudio. Mae cydweithrediad o'r

astudio, presenoldeb a manylion cyswllt.

Mae'r Coleg yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Cyffredinol ar DdiogeluData(GDPR) o fis Mai 2018.

## 10. Amrywiad i Delerau ac Amodau

Bydd Coleg Gwent yn cymryd yr holl gamau rhesymol i ddarparu'r rhaglen a'r gwasanaethau fel y'u disgrifir yn ein prosbectysau ac ar ein gwefan. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd y Coleg yn gallu darparu'r rhaglenni neu'r cyfleusterau fel y'u disgrifiwyd.

dirwyn cyrsiau i ben yn drallodus iawn i ddysgwyr a'u teuluoedd. Bydd y Coleg yn ymdrechu i gynnig cwrs arall neu ddod o hyd i raglen addas â darparwr arall. Os nad yw hyn yn bosibl, neu nid ydych yn dymuno derbyn y cwrs arall, mae gennych yr hawl i dynnu eich cais yn ôl. Os bydd tynnu'n ôl o'r fath yn digwydd, bydd y Coleg yn ad-dalu unrhyw ffioedd a dalwyd.

**11. Newidiadau i'r rhaglen astudio**